**Grŵp Llywio Gweithredu (ISG) Cymru sy'n Ystyriol o Drawma**
**Cylch Gorchwyl**

---

## 1. Pwrpas

1.1 Pwrpas y grŵp llywio gweithredu (ISG) fydd cynghori a chefnogi Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru a Straen Trawmatig Cymru (TSW) i roi Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (Fframwaith) ar waith, gan sicrhau bod cydgynhyrchu a chyd-gyflenwi yn parhau i fod yn ymrwymiad canolog. Bydd yr ISG yn rhoi cymorth ac arweiniad i gynorthwyo Hyb ACE Cymru a TSW i asesu a gwerthuso effaith y Fframwaith.

## 2. Cylch gorchwyl

2.1 Prif amcan yr ISG yw cynghori a chefnogi datblygiad y cynllun gweithredu cyffredinol a chefnogi darnau allweddol o waith; trwy weithio ar y cyd ac yn unol ag egwyddorion cydgynhyrchu a chyd-gyflenwi. Oherwydd maint y gwaith, gellir cynnig strwythur i hwyluso datblygiad meysydd gwaith penodol yn fwy effeithiol. Wrth wneud hyn, gofynnir i'r grŵp weithio gyda'i gilydd i wneud y canlynol:

- Cydgynhyrchu a chytuno ar gynllun gweithredu sy'n cyflawni ymrwymiadau cynlluniau cyflenwi lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gyfer Hyb ACE Cymru a TSW;
- Cydgynhyrchu a chytuno ar Fframwaith Gwerthuso a Monitro a fydd yn mesur yr effaith a fwriedir;
- Dwyn Hyb ACE Cymru a TSW i gyfrif yn yr ymrwymiad i gydgynhyrchu a chyd-gyflenwi drwy sicrhau bod pob datblygiad yn cadw at yr ymrwymiad hwn;
- Darparu arbenigedd wrth ddatblygu ymrwymiadau allweddol megis:
    - Naratif cyhoeddus ar gyfer gwaith y Fframwaith.
    - Fframwaith Gwerthuso a Monitro cadarn i fesur effaith y Fframwaith.
    - Sicrhau bod barn pob rhan o gymdeithas yn cael ei hystyried, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt gan drawma.
- Adolygu a monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu;
- Adolygu aelodaeth yr ISG yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn bodloni blaenoriaethau'r cynllun gweithredu ac ystyried dull wedi'i dargedu at aelodaeth, i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys aelodau yn gadael yr ISG, ac aelodau newydd yn ymuno â'r ISG yn ôl yr angen.

2.2 Oherwydd cwmpas a dyfnder y cynllun gweithredu, mae'n debygol y bydd angen bwrw ymlaen â rhai datblygiadau cydgynhyrchiol drwy grwpiau gorchwyl a gorffen. Bydd hyn yn rhoi cyfle i aelodau ganolbwyntio ar ddatblygiadau sy'n cyd-fynd â'u sgiliau a/neu ddiddordebau. Gallai hyn hefyd roi cyfle i gyfethol aelodau eraill, ag arbenigedd penodol, ar gyfer tasgau penodol.

2.3 Bydd yr ISG yn penderfynu ar y cyd ar unrhyw ffurfio grwpiau gorchwyl a gorffen yn seiliedig ar yr ymrwymiadau a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd, ynghyd â chylchoedd gwaith ac amserlenni clir ar gyfer y grwpiau hyn, gan gynnwys enwebu cyd-gadeiryddion a'r aelodaeth graidd.

## 3. Aelodaeth

3.1 Mae aelodaeth ar sail gwahoddiad yn unig.

3.2 Bydd aelodaeth yr ISG yn cynnwys rhanddeiliaid Hyb ACE Cymru a TSW, ochr yn ochr â rhanddeiliaid allanol yng Nghymru a thu hwnt, ac o ystod o sectorau, gwasanaethau a meysydd polisi, sydd â diddordeb ar y cyd mewn atal ac ymateb i adfyd a thrawma. Mae copi o’r aelodaeth y cytunwyd arni ynghlwm yn Atodiad 2.

3.3 Os na all aelod o'r ISG fynd i gyfarfod, dylai enwebu dirprwy addas i fod yn bresennol ar ei ran; bydd angen i'r dirprwy gael yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran yr aelod, os oes angen, ac i ymgysylltu'n llawn â phwrpas y cyfarfod.

3.4 Gyda chytundeb yr ISG, gellir cyfethol aelodau ychwanegol, sydd ag arbenigedd penodol mewn meysydd nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd o fewn aelodaeth yr ISG. Gall hyn fod naill ai ar sail barhaol, neu ar gyfer un cyfarfod lle bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar faes diddordeb penodol.

3.5 Byddwn hefyd yn ceisio ymgynghori â grwpiau perthnasol eraill sy’n cefnogi gwaith yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau a fynegir mor eang a chynhwysol â phosibl, e.e. Grŵp Llywio Cenedlaethol TSW, Cymuned Ymarfer Genedlaethol TrACE, Nyth ac ati.

3.6 Mae deialog ac ymgynghori â phobl â phrofiadau bywyd, yn oedolion ac yn blant a phobl ifanc, yn hollbwysig. Bydd yr ISG yn datblygu cynllun ac yn defnyddio dulliau effeithiol i sicrhau bod pobl â phrofiadau mor amrywiol â phosibl yn cael eu cynnwys a bod ymgysylltu â’r gwaith yn arloesol, yn ddiogel ac yn gynhwysol.

3.7 Bydd yr ISG yn ystyried ffocws croestoriadol mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth.

3.8 Bydd aelodaeth yn eitem safonol ar agenda pob cyfarfod er mwyn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i’w hadolygu.

## 4. Llywodraethu

4.1 Bydd y Grŵp yn cael ei gyd-gadeirio gan Dr Joanne Hopkins a’r Athro Jon Bisson.

4.2. Bydd y gwasanaethau ysgrifenyddol yn cael eu darparu gan Straen Trawmatig Cymru a Hyb ACE Cymru.

4.3 Cymerir nodiadau o bob cyfarfod, gan nodi unrhyw gamau y cytunwyd arnynt. Bydd y rhain yn cael eu hanfon at yr aelodau o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod.

4.4 Bydd yr ISG yn cytuno ar gynlluniau gweithredu, gan gynnwys rhai'r grwpiau gorchwyl a gorffen

4.5 Bydd yr ISG yn cytuno ar sefydlu unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen gan gynnwys ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth graidd, a phwy sy'n adrodd yn ôl i'r ISG a pha mor aml y maent yn cyfarfod.

4.6 Bydd yr ISG yn adrodd ar ei gynnydd i Lywodraeth Cymru drwy'r Cyd-Gadeiryddion.

## 5. Amlder cyfarfodydd

5.1 Cynhelir cyfarfodydd yn fisol rhwng Medi 2023 a Mawrth 2025. Bydd gwybodaeth ar gyfer pob cyfarfod, e.e. yr agenda ac unrhyw bapurau cysylltiedig, fel arfer yn cael eu dosbarthu i'r ISG trwy e-bost o leiaf bum diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod. Cynhelir pob cyfarfod gan ddefnyddio 'Microsoft Teams'. Mae dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd fel a ganlyn:

| **Dyddiad** | **Amser** |
|---|---|
| 14 Rhagfyr 2023 | 2pm - 4pm |
| 16 Ionawr 2024 | 2pm - 4pm |
| 13 Chwefror 2024 | 2pm - 4pm |
| 12 Mawrth 2024 | 2pm - 4pm |
| 9 Ebrill 2024 | 2pm - 4pm |
| 9 Mai 2024 | 2pm - 4pm |
| 11 Mehefin 2024 | 10am - 12pm |
| 9 Gorffennaf 2024 | 2pm - 4pm |
| 10 Medi 2024 | 2pm - 4pm |
| 8 Hydref 2024 | 2pm - 4pm |
| 5 Tachwedd 2024 | 10am - 12pm |
| 3 Rhagfyr 2024 | 10am - 12pm |
| 14 Ionawr 2025 | 10am - 12pm |
| 11 Chwefror 2025 | 10am - 12pm |
| 11 Mawrth 2025 | 10am - 12pm |
| 20$^{th}$ Mai 2025 | 2pm - 4pm |
| 8$^{th}$ Gorffennaf 2025 | 2pm - 4pm |
| 30$^{th}$ Medi 2025 | 2pm - 4pm |
| 2$^{nd}$ Rhagfyr 2025 | 2pm - 4pm |
| 27$^{th}$ Ionawr 2026 | 2pm - 4pm |
| 24$^{th}$ Mawrth 2026 | 2pm - 4pm |

## 6. Ymrwymiadau'r Aelodau

6.1 Bydd disgwyl i aelodau'r ISG wneud y canlynol:

- Mynd i gyfarfodydd neu enwebu dirprwy priodol i fod yn bresennol, a all gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau strategol;
- Paratoi ar gyfer pob cyfarfod trwy ddarllen yr holl bapurau cysylltiedig;
- Ymrwymo i gynnal cyfarfodydd mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma;

- Chwarae rhan weithredol a darparu eu harbenigedd, gwybodaeth, amser ac adnoddau i gefnogi gwaith yr ISG;
- Rhannu nid yn unig eu barn eu hunain, ond ystyried sut y gall gwaith yr ISG ystyried cyfleoedd ar gyfer effaith ehangach ar y sector;
- Dangos parodrwydd i arwain ar bwyntiau gweithredu, lle bo'n briodol;
- Helpu i nodi cyfleoedd, risgiau, problemau ac atebion;
- Rhannu gwybodaeth berthnasol;
- Gweithio ar y cyd ac yn gyfrinachol;
- Cymryd cyfrifoldeb am nodi a datgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a gweithredu'n unol â hynny i ddileu'r risg;
- Cwblhau datganiad gwrthdaro buddiannau safonol wrth ymuno â'r ISG a'i ddiweddaru yn ôl yr angen; a
- Pheidio â chymryd rhan mewn trafodaethau/prosesau gwneud penderfyniadau lle nodir gwrthdaro buddiannau posibl.

6.2 Bydd gan aelodau'r ISG gyfrifoldeb i hysbysu'r Cadeiryddion os bydd unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar enw da'r ISG neu ei waith.

**Atodiad 1**
**Cefndir a Chyd-destun y Rhaglen Waith**

Sefydlwyd Hyb Cymorth ACE yn 2017. Mae wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru am y pedair blynedd diwethaf i gynyddu ymwybyddiaeth o ACEs a thrawsnewid systemau i atal, lliniaru a mynd i'r afael ag effaith ACEs ar draws cwrs bywyd.

Yn 2019, gyda chyhoeddi'r adolygiad o Gynllun Cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22, comisiynodd Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol) Straen Trawmatig Cymru (TSW), sef menter gwella ansawdd genedlaethol. Nod TSW yw gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru ac sydd mewn perygl o ddatblygu neu sydd ag anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD) neu anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth (CPTSD). Mae datblygu a lledaenu ymyriadau i gefnogi diogelwch emosiynol a sefydlogrwydd ar gyfer y rhai sy'n profi trallod sy'n gysylltiedig â digwyddiadau trawmatig yn allweddol i'r gwaith hwn.

Ar 17 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar ei hadolygiad o bolisi ACEs yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod llawer o waith pwysig wedi'i wneud yng Nghymru mewn perthynas â'r agenda ACEs ond roedd yn glir bod angen ffocws bellach ar yr hyn y mae angen i bobl ei wneud i droi gwybodaeth am ACEs yn ymarfer sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Bu symudiad tuag at ddefnyddio'r term 'ystyriol o drawma' i ddisgrifio hyn; ond mae diffyg eglurder ynghylch beth yn union y mae hyn yn ei olygu, sut y mae hyn eisoes yn cael ei ymgorffori mewn ymarfer ac ym mha ffyrdd. Gwyddom fod ACEs yn brofiadau trawmatig, ond mae'r

ystod lawn o brofiadau trawmatig posibl yn llawer ehangach nag ACEs yn unig. Gwyddom hefyd na fyddai pob profiad trawmatig o natur angenrheidiol i waddodi PTSD neu CPTSD, er y gallent fod yn drallodus iawn i'r unigolyn yr effeithir arno. Mae hyn yn amlwg yn codi cwestiynau pwysig ynghylch diffiniadau ac iaith y dylid mynd i'r afael â nhw er mwyn darparu'r eglurder sydd ei angen. Nododd yr adolygiad o ACEs yr angen i ddatblygu fframwaith ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar gyfer Cymru i gefnogi arferion da. Comisiynwyd Hyb ACE Cymru a TSW i hwyluso cydgynhyrchu fframwaith. Gan weithio gyda grŵp cyfeirio arbenigol, datblygodd Hyb ACE Cymru a TSW fframwaith drafft yr ymgynghorwyd arno. Ym mis Gorffennaf 2022, lansiwyd Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma ar y cyd gan Ddirprwy Weinidogion Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl a Llesiant Llywodraeth Cymru, sydd wedi gofyn i Hyb ACE Cymru a TSW arwain ar weithredu a gwerthuso'r Fframwaith.

**Atodiad 2**
**Aelodaeth y Grŵp Llywio Gweithredu**

| Enw | Swydd | Sefydliad |
|---|---|---|
| Alwena Watkins | Pennaeth Rhianta a Theuluoedd | Llywodraeth Cymru – Cymunedau a Threchu Tlodi |
| Dr Annette Leponis | Dirprwy Gyfarwyddwr | Straen Trawmatig Cymru |
| Beverley Morgan | Llywodraeth Cymru - Grŵp Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol | Arweinydd Polisi |
| Charlotte Montgomery | Cyfarwyddwr Cyswllt Trawsnewid Gweithlu – Therapïau Seicolegol | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) |
| Christine Harley | Pennaeth Gweithredu'r Glasbrint | Cynrychioli'r sector cyfiawnder |
| Dave Williams | Clinigol Cenedlaethol | Y Rhaglen Strategol ar gyfer, Iechyd Meddwl Gweithrediaeth GIG Cymru |
| Dr Caroline Hughes | Deon Cysylltiol/Cynorthwy-ydd Addysgu Graddedig | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| Dr Joanne Hopkins | Hyb ACE Cymru Cyd-gadeirydd | Hyb ACE Cymru |
| Dr Katie Brown | Seicolegydd Clinigol Arbenigol Iawn | Arweinydd Llwybr Straen Trawmatig Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Dr Tegan Brierley Sollis | Arweinwyr Prosiectau Prifysgol TrACE | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| Ewan Hilton | Prif Weithredwr | Prif Weithredwr Platfform |
| Hannah Williams | Rheolwr Gwella a Datblygu | Rheolwr Gwella a Datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Joseff Bromwell | Uwch Reolwr Prosiectau | Hyb ACE Cymru |
| Judith John | Arweinydd Iechyd Cyhoeddus ac Atal AHP Cymru Gyfan | AaGIC |
| Julia James | Pennaeth Rhaglenni | Mind Cymru |
| Karen Gully | Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | ABUHB |
| Lauren Hopkins | Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Hyb ACE Cymru |
| Mark Davis | Teuluoedd yn Gyntaf | Cyngor Bro Morgannwg |
| Michael Davitt | Aelod o'r Cyhoedd | Cynrychiolydd Grŵp Cynghori Cyhoeddus Straen Trawmatig Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Natalie Blakeborough | Dirprwy Arweinydd | Hyb ACE Cymru |
| Sarah Cosgrove | Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru |
| Sarah Crawley | Cyfarwyddwr | Barnardo's Cymru |
| Tony Hendrickson | Cultural Competence Certification Scheme Coordinator | Diverse Cymru |
| Wayne Warner | Uwch Reolwr Polisi | Llywodraeth Cymru – Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Danielle Wiltshire | Swyddog Cymorth Prosiectau | Hyb ACE Cymru |